Themâu'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy

Mae'r gwaith o drin a thrafod y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn cynnwys pedwar prif thema. Rydym yn ystyried y bydd y rhain yn allweddol os bydd y cyngor yn cyflawni ei weledigaeth i sicrhau y gall pobl gyrraedd cefn gwlad y sir yn hwylus. Dyma'r themâu:

Themâu

A Hawliau Tramwy Cyhoeddus a Hamdden yn yr Awyr Agored

B Rheoli a Chamau Gorfodi Hawliau Tramwy a Mannau Gwyrdd Cyhoeddus

C Map Diffiniol a Datganiad

D Cyhoeddusrwydd a Hyrwyddo

Mae'r themâu hyn yn deillio o'r Datganiad Camau Gweithredu: hwn yw sail ein nodau allweddol ac mae pob thema a'r Cynllun Cyflawni'n tarddu ohono.

Mae'r themâu hyn a'r Datganiad Camau Gweithredu'n mynd i'r afael â'r prif faterion sy'n deilli o'r ymgynghoriad ac asesiadau cyhoeddus. Hefyd maent yn llywio'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, y Cynllun Cyflawni a'r gwelliannau sydd ar y gweill ar gyfer Gwasanaethau Cefn Gwlad dros y deng mlynedd nesaf.

Powys